Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Local Democracy and Boundary Commission For Wales

# YR IAITH GYMRAEG

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# 2017 - 2018

# COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

# ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YR IAITH GYMRAEG 2017 - 2018

**MYNEGAI**


**1. Cyflwyniad a Chefndir**

**2. Trosolwg o 2017-18**

**3. Gweithredu'r Safonau**

1. **Cyflwyniad a Chefndir**

Yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg (1993), diffiniwyd darpariaeth gwasanaethau Cymraeg gan Gynlluniau Iaith Gymraeg wedi'u datblygu'n unigol a gytunwyd rhwng cyrff cyhoeddus unigol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r trefniant hwn bellach wedi'i ddisodli gan Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u diffinio'n genedlaethol, a gall Comisiynydd y Gymraeg gymhwyso detholiad ohonynt i gyrff cyhoeddus (a rhai cyrff preifat, ymhen amser).

Diffiniwyd y fframwaith ar gyfer pennu safonau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) (2011), gyda'r safonau eu hunain wedi'u nodi yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r safonau sy'n gymwys i'r Comisiwn wedi'u diffinio mewn Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Iaith ym mis Gorffennaf 2016, gyda dyddiad dod i rym ym mis Gorffennaf 2017. Yr hysbysiad hwn yw'r ddogfen gyfredol sy'n llywodraethu cydymffurfedd y Comisiwn.

Hwn yw Adroddiad Blynyddol cyntaf y Comisiwn ers i'r safonau ddod yn weithredol, ac mae'n rhoi trosolwg o brif ddigwyddiadau'r cyfnod 12 mis hyd at 31 Mawrth 2017, ac arfarniad o ble mae'r Comisiwn arni mewn perthynas â gweithredu'r safonau.

2. **Trosolwg o 2017-18**

Y prif ddigwyddiad yn ystod y cyfnod adrodd oedd bod y safonau, ar 31 Gorffennaf 2017, fel y'u pennwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i'r Comisiwn wedi dod yn gwbl weithredol. Roedd Dyddiad Cydymffurfio (gweithredol), sef 31 Ionawr 2017, i'r mwyafrif o'r safonau, gyda'r gweddill yn dod yn weithredol ar 31 Gorffennaf 2017. Mae gweithredu Safonau Iaith Gymraeg y Comisiwn yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn o'r dyddiad hwnnw. Yn ystod y flwyddyn, diwygiwyd dogfen y Comisiwn, 'Safonau'r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau' ac fe'i cymeradwywyd gan y Comisiwn ym mis Medi 2017 a'i chyhoeddi ar wefan y Comisiwn. Ym mis Medi 2017 hefyd, cyhoeddodd y Comisiwn ei Bolisi Cwynion Safonau'r Gymraeg.

Yn ogystal â'r gwaith sy'n ofynnol i sicrhau y bydd y Comisiwn yn bodloni'r safonau newydd, un prif darged yn y flwyddyn fu cynnal y gofynion sy'n bodoli'n barod ar gyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg a bennwyd y flaenorol yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn.

Yn ystod y flwyddyn, ni chodwyd unrhyw gwynion ynghylch gweithrediad safonau'r Comisiwn.

3. **Gweithredu'r Safonau**

**Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

O ran gohebiaeth, mae'r holl lythyrau a negeseuon e-bost gweithdrefnol a anfonwyd allan fel rhan o'r broses arolygon wedi'u cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg a'u hanfon allan ar yr un pryd. Ar gyfer eitemau gohebiaeth eraill, mae system dewis iaith wedi'i rhoi ar waith. Lle nad yw dewis iaith yn hysbys, cynhyrchir gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg (rhifau Safonau 1 i 7).

Mae gweithdrefnau mewn perthynas ag ateb y prif rif ffôn ar waith (rhifau Safonau 8 i 22).

Mae gweithdrefnau mewn perthynas â'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer cynnal cyfarfodydd ar waith (rhifau Safonau 24 i 30).

Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (rhifau Safonau 31 i 34).

Cafodd yr holl ddogfennau a gynhyrchwyd at ddefnydd y cyhoedd eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd (rhifau Safonau 36, 44 a 45).

Ni chynhyrchwyd unrhyw ffurflenni a oedd ar gael i'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn (rhifau Safonau 46 i 47).

Mae'r holl dudalennau ar wefan y Comisiwn yn gwbl weithredol ac ar gael yn Gymraeg a Saesneg (rhifau Safonau 48, 51 a 52).

Gwneir defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg a Saesneg (rhifau Safonau 54 a 55).

Mae'r holl arwyddion a hysbysiadau newydd wedi'u cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg i'r safon ofynnol (rhifau Safonau 57 i 59, 65 a 66).

Cynhyrchwyd yr holl ddeunydd contractau yn Gymraeg a Saesneg a dilynwyd y gweithdrefnau trin a thrafod priodol (rhifau Safonau 72,73, 75 a 76).

Ni chafwyd unrhyw wasanaeth Cymraeg newydd ac ni fu unrhyw newid i hunaniaeth gorfforaethol yn ystod y flwyddyn (rhifau Safonau 77 i 79).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau cyflwyno gwasanaethau sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y dylid cydymffurfio â nhw, gellir gweld y rhain yn y ddogfen Safonau'r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac ar gael yn y swyddfa (rhifau Safonau 149 ac 153).

Mae Polisi Cwynion Safonau'r Gymraeg y Comisiwn ar gael ar y wefan ac mae ar gael yn y swyddfa. (rhifau Safonau 150 i 151).

Y ddogfen hon yw adroddiad blynyddol y Comisiwn mewn perthynas â safonau cyflwyno gwasanaethau (rhif Safon 152).

Ni wnaeth Comisiynydd y Gymraeg unrhyw geisiadau am wybodaeth mewn perthynas â safonau cyflwyno gwasanaethau yn ystod y flwyddyn (rhif Safon 154).

## Safonau Llunio Polisi

Nid oes unrhyw bolisïau newydd na diwygiadau i bolisïau presennol wedi digwydd yn ystod y flwyddyn a fynnodd ymgymryd ag Asesiad Effaith ar Bolisi'r Gymraeg (rhifau Safonau 84 i 89).

Ni wnaed unrhyw ymchwil newydd, ac ni chomisiynwyd unrhyw ymchwil newydd yn ystod y flwyddyn (rhifau Safonau 91 i 93).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau llunio polisi sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut ddylid cydymffurfio â nhw, gellir gweld y rhain yn y ddogfen Safonau'r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac ar gael yn y swyddfa. (rhifau Safonau 155 a 157).

Mae Polisi Cwynion Safonau'r Gymraeg y Comisiwn ar gael ar y wefan ac yn y swyddfa. (rhif Safon 156).

Y ddogfen hon yw adroddiad blynyddol y Comisiwn mewn perthynas â safonau llunio polisi (rhif Safon 158).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau llunio polisi sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut ddylid cydymffurfio â nhw, gellir gweld y rhain yn y ddogfen Safonau'r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac ar gael yn y swyddfa. (rhif Safon 159).

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am wybodaeth yn ymwneud â safonau llunio polisi yn ystod y flwyddyn (rhif Safon 160).

**Safonau Gweithredu**

Mae Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith yn ei le ac mae copi wedi'i ddarparu i'r holl staff a'r Comisiynwyr (rhif Safon 94).

Caiff yr holl ddewisiadau iaith ar gyfer pob aelod staff newydd ac aelodau staff presennol eu casglu, a gweithredir arnynt yn briodol (Safonau 95 i 100)

Mae gweithdrefn wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod unrhyw bolisïau staffio newydd neu ddiwygiedig yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg (Safonau 101 i 107)

Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer gwneud cwynion ac ymateb i gwynion a wnaed i aelodau staff ac maent wedi'u cynnwys yn y Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith (Safonau 108, 108A, 110 a 111).

Mae gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â materion disgyblu ac maent wedi'u cynnwys yn y Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith (Safonau 112, 112A, 114 a 115).

Nid oes mewnrwyd gwbl weithredol gan y Comisiwn ar hyn o bryd. Mae hon i'w datblygu yn ystod 2018/19 a bydd yn cwmpasu Safonau'r Gymraeg perthnasol (Safonau 118, 120 i 123).

Cynhaliwyd asesiad o sgiliau Cymraeg yr holl staff; caiff ei gynnal, ac ychwanegir ato ar gyfer staff newydd (Safon 123), Atodiad 1.

Mae pob aelod o staff wedi cael gwybod am gyfleoedd i gael hyfforddiant yn y Gymraeg, ac maent yn cael eu hannog i'w gael; yn ogystal, mae aelodau staff newydd yn cael eu hannog i fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Mae pob aelod o staff wedi cael copi o’r Polisi Defnyddio’r Gymraeg yn y Gwaith a dogfen
Safonau’r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau y Comisiwn, fel bod ganddynt ddealltwriaeth o ddyletswydd y Comisiwn i weithredu’n unol â Safonau’r Gymraeg a sut gellir defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle (Safonau 126 i 129).

Mae geiriad priodol a chyfarwyddiadau mewn perthynas â llofnodion e-bost a manylion cyswllt wedi’u darparu i’r holl staff (Safonau 130 ac 131).

Mae trefniadau priodol wedi’u rhoi ar waith ynglŷn â sgiliau Cymraeg swyddi, a hysbysebu a llenwi swyddi gweigion (Safonau 132 i 133B, 135 i 136). Ceir manylion swyddi a hysbysebir yn Atodiad 2.

Ni chodwyd unrhyw arwyddion newydd yn ystod y flwyddyn (Safonau 137 i 139).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i’r safonau gweithredu sy’n berthnasol i’r Comisiwn a sut i gydymffurfio â nhw, gellir gweld y rhain yn nogfen Safonau’r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau sydd wedi’i chyhoeddi ar y wefan ac ar gael yn y swyddfa. (rhifau Safonau 161 a 163 a 165).

Mae Polisi Cwynion Safonau’r Gymraeg y Comisiwn ar gael ar y wefan ac yn y swyddfa (rhif Safon 162).

Y ddogfen hon yw adroddiad blynyddol y Comisiwn mewn perthynas â safonau gweithredu (rhif Safon 164).

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am wybodaeth yn ymwneud â safonau gweithredu yn ystod y flwyddyn (rhif Safon 166).

**Safonau Cadw Cofnodion**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynglŷn â chydymffurfedd y Comisiwn â Safonau’r Gymraeg yn ystod y flwyddyn (Safonau 141 i 143).

Mae Cofnod Cydymffurfedd â Safonau’r Gymraeg wedi’i greu ac fe’i cedwir i sicrhau bod cofnod o gydymffurfedd â’r safonau ar gael (Safonau 144 i 148).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i’r safonau cadw cofnodion sy’n berthnasol i’r Comisiwn a sut i gydymffurfio â nhw, gellir gweld y rhain yn nogfen Safonau’r Gymraeg Polisi a Gweithdrefnau sydd wedi’i chyhoeddi ar y wefan ac ar gael yn y swyddfa (rhif Safon 167).

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am wybodaeth yn ymwneud â safonau gweithredu yn ystod y flwyddyn (rhif Safon 168).

**Atodiad 1**

Sgiliau Cymraeg Staff: Safon 123

Mae’r tabl hwn yn nodi’r aelodau staff a oedd yn meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2017/18 (Mawrth 2018). Mae’r ffigurau wedi’u seilio ar y cofnodion a gadwyd yn unol â Safon 123.

| **Sgiliau (Lefelau 0-6)** | **0** | **1** | **3** | **4** | **5** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwrando | 8 | 3 | 0 | 0 | 1 | 12 |
| Darllen | 6 | 5 | 0 | 0 | 1 | 12 |
| Siarad | 7 | 4 | 0 | 0 | 1 | 12 |
| Ysgrifennu | 9 | 1 | 1 | 1 | 0 | 12 |

**Atodiad 2**

Recriwtio i Swyddi: Safon 132

Mae’r tabl isod yn dangos nifer y swyddi a hysbysebwyd yn 2017-18 o dan bob gofyniad sgiliau Cymraeg. Mae’r ffigurau yn adlewyrchu’r cofnodion a gadwyd y unol â Safon 132.

| | |
|---|---|
| Cymraeg yn Hanfodol | 0 |
| Cymraeg yn Ddymunol | 2 |
| Cymraeg i’w Dysgu | 0 |
| Cymraeg Ddim yn Angenrheidiol | 0 |